

2012 Rhif 1520 (Cy. 202)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed

8 Mehefin 2012

Yn dod i rym

18 Mehefin 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 18 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

-
- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd cefnffordd yr A40 o'r fynedfa ddeddwyreiniol i'r orsaf betrol ger Cylchfan Cinderhill Street/Portal Road i'r man lle y mae'n uno â'r brif gerbyttfordd tua'r gogledd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn penodedig o'r gefnffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig 8 Mehefin 2012

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru